Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Redwood Care Solutions Limited**

**27 Croft Street**
**Abertawe**
**SA1 1QE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/08/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Redwood Care Solutions Limited

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | REDWOOD CARE SOLUTIONS LIMITED |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [Hwn yw arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers iddo ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.] |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae Redwood Care Solutions yn darparu gwasanaeth cymorth cartref i bobl yn eu cartrefi eu hunain ym mhartneriaeth ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

Hwn yw arolygiad cyntaf y gwasanaeth, ac mae niferoedd y tîm o staff a'r bobl sy'n derbyn y gwasanaeth yn cynyddu. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn gweithio'n ymarferol ar hyn o bryd wrth i'r gwasanaeth ddatblygu. Mae hyn yn golygu bod pob aelod o'r staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn cael eu cefnogi gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr.

Mae cynlluniau personol manwl (y cyfeirir atynt fel cynlluniau cyflenwi gwasanaethau gan y darparwr) ar waith er mwyn rhoi gwybod i'r gweithwyr gofal pa gymorth sydd ei angen. Mae asesiadau risg ar waith a chaiff adolygiadau rheolaidd eu cwblhau.

Mae prosesau recriwtio a hyfforddiant da ar waith er mwyn sicrhau bod y staff yn teimlo'n hyderus ac yn gallu darparu lefel dda o ofal a chymorth. Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol brosesau sicrhau ansawdd da ar waith er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth sy'n gwella'n barhaus.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir ar yr amser y cytunwyd arno yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r tîm yn pwysleisio pwysigrwydd dewis i'r bobl, a gwneud yr hyn sydd o bwys iddynt. Dywedodd y staff wrthym “X’s *routine is respected and how things are done and what is important to them”.* Caiff amseroedd galwadau eu cynnal lle y bo'n bosibl, yn ogystal â pharhad o ran y staff a dangosir parch tuag at ddymuniadau ac arferion unigolion. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym *“At the end of the day if you listen and respect what they are saying and fulfil their wishes it will be fine”.* Mae'r staff yn parchu'r bobl ac fe'u gwelsom yn dilyn cynlluniau personol y bobl er mwyn sicrhau y gallant gyflawni eu canlyniadau.

Rhoddir dewisiadau i'r bobl yn ystod eu galwadau gofal. Ar hyn o bryd, nid yw'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, felly ni chaiff y Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ei ddarparu. Bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn adolygu hyn os bydd yr amgylchiadau'n newid. Gwelsom aelodau'r tîm yn defnyddio eu menter i ddefnyddio ap cyfieithu a chyfieithydd pan fo angen er mwyn cefnogi'r bobl yn eu dewis iaith.

Gall y bobl gael gafael ar y wybodaeth gywir pan fydd ei hangen arnynt. Gwelsom y staff yn rhoi gwybodaeth i'r bobl am y canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth, y Datganiad o Ddiben a'r polisi cwynion. Mae gan y bobl rifau cyswllt y gwasanaeth hefyd, gan gynnwys y rhif cyswllt y tu allan i oriau.

Caiff lleisiau'r bobl eu clywed a gwrandewir arnynt. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn eu hasesiadau a'r broses o gynllunio eu gofal a'u cymorth. Mae hyn yn sicrhau y caiff eu llesiant a'u hannibyniaeth eu hystyried i'r eithaf wrth gael eu cefnogi yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r bobl yn cytuno ar wybodaeth, gan gynnwys Cynllun Cyflenwi y gwasanaeth, ac yn ei llofnodi, a gallant gael gafael ar gopi o'r contract gyda'r asiantaeth. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn eu hadolygiadau a chaiff eu hadborth ei ystyried o ran sut y gellir gwella pethau, ynghyd â'r prosesau sicrhau ansawdd cyffredinol ar gyfer y gwasanaeth. Dywedodd un unigolyn wrthym *“Anything we have to say, my family are in touch and we are listened to.”*

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn cymaint â phosibl gan y staff gofal sy'n eu cefnogi yn eu cartref. Mae'r Unigolyn Cyfrifol, y rheolwr a'r gweithwyr gofal yn cyfathrebu'n dda fel tîm ac mae trefniadau goruchwylio effeithiol ar waith. Mae pob aelod o'r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant diogelu ac mae polisi Diogelu effeithiol ar waith. Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth am y ffordd i fynegi unrhyw bryderon. Caiff asesiadau risg amgylcheddol eu cwblhau ar gyfer unigolion. Mae'r rhain hefyd yn cynnwys asesiadau risg personol unigol, er enghraifft ar gyfer symudedd neu feddyginiaeth. Mae cynllun wrth gefn ar waith ar gyfer digwyddiadau fel tywydd eithafol.

## Gofal a Chymorth

Mae'r darparwr yn cynnwys y bobl wrth asesu ac adolygu eu cynlluniau personol. Gwnaethom nodi, er nad oedd unrhyw asesiadau ysgrifenedig ar gael, ei bod yn amlwg bod asesiad yn cael ei gwblhau er mwyn llunio'r cynllun personol. Bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn gweithio tuag at lunio a chwblhau dogfen asesu yn y dyfodol. Mae'r cynllun personol (cynllun cyflenwi y gwasanaeth) yn cynnwys manylion y cymorth sydd ei angen yn ystod y galwadau gofal. Mae gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'i chynnwys yn y cynllun. Fodd bynnag, gellid ystyried yr hyn sy'n bwysig i'r bobl a'u canlyniadau llesiant ymhellach o fewn yr adran canlyniadau.

Ar y cyfan, mae'r cynlluniau personol yn gywir. Caiff adolygiadau o'r gwasanaeth y mae'r bobl yn ei gael eu cwblhau gan yr Unigolyn Cyfrifol fel rhan o'i brosesau goruchwylio a sicrhau ansawdd. Mae'r rhain yn dda iawn ac maent yn cynnwys canfyddiadau'r adborth, y cynllun gweithredu ac awgrymiadau/newidiadau. Cytunir ar gynllun gweithredu yn dilyn yr adolygiadau er mwyn sicrhau y caiff gwelliannau a nodir eu rhoi ar waith.

Mae'r tîm gofal yn darparu gofal o ansawdd da i'r bobl yn eu cartrefi eu hunain er mwyn sicrhau y caiff eu canlyniadau eu cyflawni a bod eu hannibyniaeth yn cael ei hyrwyddo. Caiff y galwadau gofal eu cynnal ar amseroedd y cytunwyd arnynt â'r bobl a dywedodd y bobl wrthym fod y parhad gofal yn dda. Mae hyn yn adlewyrchu maint y tîm ar hyn o bryd. '*The staff I see is 3 or 4 staff which is nice – a variety of staff but not too many. Nice to see different people"* ac *"I am satisfied with what I have..."* Gwelsom fod yr arferion codi a chario yn cydymffurfio â chynlluniau codi a chario'r bobl a bod gofal yn cael ei ddarparu fel yr amlinellir yng nghynlluniau personol y bobl. Roedd y staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol yn ôl yr angen a chaiff hyn ei fonitro wrth gynnal hapwiriadau a'i drafod mewn cyfarfodydd tîm.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae llinellau atebolrwydd clir yn y gwasanaeth. Mae'n hawdd mynd at yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr ac maent yn cynnig cymorth ymarferol yn ôl yr angen ar hyn o bryd wrth i'r tîm o staff ehangu. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac mae ganddynt brosesau sicrhau ansawdd ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys cofnodion da iawn o'r adborth a gasglwyd gan y staff a'r bobl sy'n derbyn y gwasanaeth. Bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn mynd ati i lunio un adroddiad cyffredinol sy'n crynhoi'r hyn sy'n gweithio'n dda, yr hyn y gellir ei wella a sut y bydd hyn yn sicrhau canlyniadau gwell i'r bobl. Mae'r archwiliadau, yr hapwiriadau a gaiff eu cynnal ar y staff a'r system monitro galwadau electronig hefyd yn sicrhau y gellir monitro ac adolygu ansawdd y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys monitro amseroedd a hyd galwadau. Mae'n amlwg bod yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn ymrwymedig i gael pethau'n iawn yn y gwasanaeth o'r dechrau. Bydd hyn yn eu helpu i wella a datblygu'n barhaus wrth i'r gwasanaeth dyfu.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r trefniadau ariannol ar gyfer y gwasanaeth. Ar hyn o bryd, mae'r trefniadau recriwtio yn cydymffurfio â'r atgyfeiriadau y mae'r gwasanaeth yn eu cael er mwyn sicrhau bod y twf yn unol â'r hyn y gellir ei ddarparu.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r bobl. Mae hyn yn cynnwys y Datganiad o Ddiben a'r polisïau. Gwelsom fod gwybodaeth yn cael ei storio'n ddiogel yn y swyddfa ar gyfrifiadur sydd wedi'i ddiogelu â chyfrinair a chwpwrdd y gellir ei gloi ar gyfer unrhyw ddogfennau papur. Gall y bobl ddarllen copïau o'u dogfennau eu hunain yn eu cartrefi.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn sicrhau bod y bobl yn cael eu cefnogi gan staff sydd wedi'u recriwtio'n briodol ac sydd wedi ymgymryd â lefel dda o hyfforddiant. Maent hefyd yn cael sesiynau goruchwylio a chymorth parhaus. Mae prosesau recriwtio yn effeithiol ac mae gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith. Caiff bylchau mewn hanes cyflogaeth eu harchwilio, a chesglir geirdaon cyn i weithwyr gofal ddechrau eu cyflogaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn sefydlu aelodau newydd o staff ac mae hyn yn cynnwys cyfuniad o hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein. Dywedwyd wrthym fod yr hyfforddiant codi a chario a hyfforddiant meddyginiaeth yn cael eu darparu wyneb yn wyneb. Yna, caiff y staff eu cefnogi wrth ymgymryd â chyfnod o gysgodi aelod arall o staff. Mae'r amser a gaiff ei ddyrannu ar gyfer hyn yn dibynnu ar wybodaeth a hyder y staff. Mae'r staff ar hyn o bryd yn cael dwy sesiwn oruchwylio y mis a darperir cymorth iddynt hefyd yn dilyn galwadau monitro a hapwiriadau. Mae cyfarfodydd tîm rheolaidd yn gwella'r arferion cyfathrebu ymysg y tîm. Dywedwyd wrthym *“We don’t often find problems as we train the staff and they know what is what.”* Dywedodd y staff wrthym, *“Yes I am well supported”* ac *“I really enjoy it. I am really well supported and the training was good.”*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/09/2024